CARDIFF
CAERDYDD

ADRAN YSTADAU STRATEGOL



**Safle Garej**

Bronllwyn Road, Pentyrch, Caerdydd

# AR WERTH




**Dyddiad Cau - hanner dydd, dydd Gwener 6 Hydref 2017**



www.cardiffcouncilproperty.com/cy/



## Cynllun Safle











## Lleoliad

Mae'r hen safle garej wedi ei leoli oddi ar Bronllwyn, Pentyrch, Caerdydd. Mae'r safle wedi ei leoli yng nghefn rhifau 5 a 7 Bronllwyn ac eir iddi ar hyd lôn fynediad hir yn union o'r briffordd fabwysiedig. Yn ffinio â'r safle mae gerddi rhifau 5 a 7 Bronllwyn i'r dwyrain, rhif 3 Bronllwyn i'r gorllewin ac is-orsaf bŵer Western Power i'r gogledd.

At ei gilydd ardal breswyl yw'r ardal leol sydd oddeutu 7.5 milltir o ganol Dinas Caerdydd ac mae'n agos i gyfleusterau lleol sy'n cynnwys siopau, ysgol gynradd, tafarn, canolfan chwaraeon a gwasanaeth bws lleol y gellir ei ddefnyddio o Bronllwyn. Mae'r safle yn cynnig cysylltiadau fyrdd da â'r M4 a Chanol Dinas Caerdydd ar hyd y B4262 a'r A470.




***Lleoliad y safle ag ymyl coch***

## Disgrifiad

0.05 acer (206 m2) yw arwynebedd y safle o ran maint sy'n cynnwys safle gwastad a dwy uned garej ar y safle. Nid oes gwybodaeth arolwg ar gael ar gyfer yr unedau garej a chynghorir darpar brynwyr i gyrchu cyngor annibynnol parthed adeiladwaith a diogelwch yr adeilad.  Yn y gorffennol bu'r Cyngor yn gosod y ddwy garej ond maent bellach yn wag. Tir agored yw gweddill y safle sy'n rhoi mynediad at y ddwy garej.



**Cynllunio**

Dylai darpar brynwyr fodloni eu hunain parthed potensial datblygu ar y safle.

**Gwasanaethau**

Mae ymchwiliad cychwynol wedi ei gwblhau ar y gwasanaethau sydd ar y safle ac mae cynlluniau sydd yn dangos y wybodaeth yma ar gael ar gais. Fodd bynnag cynghorir partion sydd â diddordeb i gysylltu â'r cwmniau cyfleustodau i bennu union leoliad ac addasrwydd y Gwasanaethau.

**Teitl Cyfreithiol**

Gwerthir y safle fel rhydd-ddaliad, yn amodol ar fforddfraint yn ffafrio Western power Distribution. Rhydd y fforddfraint yr hawl i gwmni Western Power Distribution osod a chynnal ceblau ar hyd llinell o'r briffordd fabwysiedig i'r is-orsaf yng nghefn y safle. Caiff mynediad dirwystr i'r fforddfraint a'r is-orsaf ei gadw gan Western Power Distribution ar unrhyw adeg er mwyn cael mynediad ac at ddibenion cynnal a chadw. Atodir copi o'r ddogfen fforddfraint er gwybodaeth yn unig.

**Cysylltiadau**

Am fwy o wybodaeth ac i drefnu ymweliad â'r safle cysylltwch â'r naill neu'r llall o'r canlynol:

Sue Colston
Ystadau Strategol
Datblygu Economaidd
Yst CY6 ( Y Cwrt ),
Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd, CF11 5UW
Ffôn: 029 20872761
E-bost:
S.Colston@caerdydd.gov.uk

Tye Whithear
Ystadau Strategol
Datblygu Economaidd
Yst CY6 ( Y Cwrt ),
Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd, CF11 5UW
Ffôn: 029 20873468
E-bost:
Tye.Whithear2@caerdydd.gov.uk



**Telerau Gwaredu**

Bydd Cyngor Caerdydd yn ystyried cynigion diamod i brynu rhydd-ddaliad ar yr holl safle.

Dylai'r Cynnig a gyflwynir nodi'r defnydd arfaethedig ar gyfer y safle. Byddai o fudd felly i bartion â diddordeb gyflwyno gwybodaeth atodol wrth gyflwyno Cynnig er mwyn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth wedi derbyn y tendrau.

Mae'r Cyngor yn gwahodd cynigion diamod ar gyfer gwarediad rhydd-ddaliadol y safle gwag. Dylai pob cynnig gynnwys 'Ffurflen Gynnig' wedi ei chwblhau fel sydd wedi ei chynnwys yn y manylion yma a'i dychwelyd yn yr amlen swyddogol â chyfeiriad arni erbyn hanner dydd ar ddydd Gwener 06 Hydref 2017. Mae'r Ffurflen Gynnig a'r Amlen Ddychwelyd ar gael ar gais gan y Swyddfa Ystadau Strategol, Neuadd y Sir.

Bydd gwaredu'r safle yn amodol ar daliad sy'n cyfateb i 10% o'r pris cynnig a fydd yn daladwy ar gyfnewid contractau gyda'r gweddill yn daladwy pan gwblheir y gwerthiant.

Bydd y cyfnewid contractau o fewn pedair wythnos wedi derbyn y cynnig neu'r dyddiad cynharaf posib wedi hynny.

**Costau**

Bydd y prynwr llwyddiannus yn gyfrifol am dalu gostau cyfreithiol a thirfesurol y cyngor Sir a fydd yn deillio o'r trafodyn.

- Bydd y costau cyfreithiol yn £557.75 neu 1% o'r pris gwerthu pa un bynnag fydd fwyaf
- Costau Tirfesurwyr fydd:
    - £550 pan na fydd y pris prynu yn fwy na £5,000.
    - £750 pan fydd y pris gwerthu rhwng £5,001 a £37,500
    - 2% rhwng £37,501 a £100,000;





## UNEDAU GAREJ AR BRONLLWYN ROAD, PENTYRCH , CAERDYDD

Rwyf i/ Rydym ni...............................................................wedi darllen yr amodau gwerthiant atodedig ac felly yn cynnig, yn amodol ar gontract, y swm o:

£ .........................................................................................................(punt)
.........................................................................................................(ceiniog)

(£ : c)

Rwyf i / Rydym ni yn deall ein bod yn cyflwyno'r cynnig hwn ar ein cost ein hun ac nad yw'r Cyngor wedi ei rwymo i dderbyn unrhyw gynnig.
Rwyf i / Rydym ni yn datgan nad ydym yn barti i unrhyw gynllun neu gytundeb lle:

Byddaf i / Byddwn ni yn hysbysu unrhyw berson arall swm ein cynnig, a/neu

Rwyf fi/Rydym ni wedi gosod swm unrhyw gynnig yn unol â threfniant i osod pris.

Rwyf i/Rydym ni yn derbyn bod y Cyngor â'r hawl i ganslo'r contract ac adennill gennym swm unrhyw golled sy'n codi o'r cyfryw gansliad os darganfyddir y bu gweithred lwgr neu dwyllodrus neu ddiffyg gweithredu a ddenodd y Cyngor mewn unrhyw fodd i roi'r contract ar waith.
Rwyf i/Rydym ni yn cytuno, os bydd cyn derbyn y cynnig hwn unrhyw amheuaeth ynghylch swm y cynnig hwn y cawn gyfle i gadarnhau y swm a gynigir neu dynnu'r cynnig yn ôl.
Rwyf i/Rydym ni yn cytuno y bydd gosod unrhyw amod gennym ar y cynnig hwn, neu unrhyw ddiwygiad heb ei awdurdodi i fanylion y gwerthiant ddim yn effeithio ar eiriad gwreiddiol y testun ond y gall olygu y caiff y cynnig ei wrthod.
Rwyf i/Rydym ni yn cytuno y bydd y cynnig ar agor i gael ei dderbyn gan y Cyngor ac na chaiff ei dynnu nôl gennym am gyfnod o 28 diwrnod yn dilyn y dyddiad olaf a bennwyd ar gyfer derbyn cynigion neu unrhyw estyniad pellach a hysbysir wedi hynny.
Rwyf i/Rydym ni yn tystio bod hwn yn gynnig diffuant.

<u>Nid yw'r cynnig hwn yn rhwymo ac fe geidw'r Cyngor yr hawl i wrthod unrhyw gynnig a gaiff ei dderbyn</u>

Rhaid dychwelyd cynigion yn yr amlen swyddogol a ddarperir a hynny **dim hwyrach na hanner dydd ar ddydd Gwener 06 Hydref 2017.**



CARDIFF
CAERDYDD

## ADRAN YSTADAU STRATEGOL



| | |
|---|---|
| Address Cyfeiriad | |
| Telephone Ffôn | |
| Signature Llofnod | |
| Name Enw | |
| Date Dyddiad | |
| Witness Name Enw Tyst | |
| Witness Signature Llofnod Tyst | |
| Date Dyddiad | Where did you hear about this opportunity Ymhle glywsoch chi am y cyfle hwn |
| Manylion Llawn y Defnydd Arfaethedig | |
| Enw a chyfeiriad cyfreithiwr | |
| Gwybodaeth atodol arall ( Cynllun Busnes ayb. ) | |





Lle bo'r Cynigiwr yn 'gorff' a ymgorfforwyd neu gymdeithas, dylai ysgrifennydd y cwmni neu gyfarwyddwr a awdurdodwyd neu ymddiriedolwr lofnodi. Os yn bartneriaeth dylai partner lofnodi. Os yn unigolyn dylai'r perchennog lofnodi.

NI DDYLID DATGYSYLLTU'R FFURFLEN GYNNIG HON A DYLID DYCHWELYD Y DDOGFEN LAWN YN GYFLAWN YN YR AMLEN A DDARPARWYD

## Rhaid i bob cynnig gael ei dderbyn dim hwyrach na hanner dydd ar ddydd Gwener 06 Hydref 2017

Os carech gael y ddogfen hon yn Saesneg e-bostiwch y mewnflwch prisio valuation@caerdydd.gov.uk

Hefyd mae croeso i chi ymweld â'n gwefan Ystadau Strategol www.cardiffcouncilproperty.com/cy/

*Ymwadiad:*

1. *Rhoddir y wybodaeth uchod ac sydd wedi ei gynnwys yn y ddogfen hon fel amlinelliad cyffredinol fel arweiniad i bartïon â diddordeb ac nid yw'n ffurfio rhan o'r cynnig nac o'r contract.*

*2. Caiff pob disgrifiad, mesuriadau, cynlluniau, cyfeiriad at gyflwr a chaniatád angenrheidiol parthed defnydd a meddiannaeth a'r holl fanylion eraill, eu rhoi heb unrhyw gyfrifoleb ac ni ddylai partion â diddordeb ddibynu arnynt fel datganiadau neu ffeithiau, ond dylent fodloni eu hunain drwy archwiliad neu fel arall ynghylch cywirdeb pob un ohonynt.*

*3. Nid oes gan unrhyw un o gyflogeion Cyngor Caerdydd yr awdurdod i wneud neu roi unrhyw sylwadau neu warant o unrhyw fath parthed yr eiddo/tir hwn.*
*4. Ceidw'r Cyngor yr hawl i beidio â derbyn unrhyw gynnig a ddaw i law.*

